

Archwiliad CDLI Newydd Caerdydd

Niferoedd Tai

Pwynt Gweithredu HS1.2

Y Cyngor i esbonio pam mae 3 blynedd diwethaf y Taflwybr Tai (Atodiad 7) yn dangos ffigurau negyddol a chynnig sylwadau ar beth mae hyn yn ei olygu i darged tai y CDLI.

Ymateb y Cyngor

Gall y Cyngor egluro bod y ffigur minws yn adlewyrchu gor-gyflenwad, yn hytrach na than-gyflenwad, fel y byddai rhywun yn tybio o werth minws.

Mae'r tabl yn dangos y gellid bodloni'r gofyniad o 24,000 o gartrefi erbyn Bl 13 (h.y. 24,688 o gyflawniadau disgwylidig). Mae'r gwerth negyddol yn deillio o'r fformiwla Excel ac efallai wrth ailystyried y gellid bod wedi ei osod gallai fod wedi cael ei osodi sero wedi hynny, neu egluro hynny mewn troednodyn. Mae'r fformiwla fel a ganlyn: gofyniad annedd (24,000) minws cyflawniadau cronus disgwylidig erbyn 2036 (27,242) sy'n hafal i werth o -3,242.

Yn y pen draw, roedd yn adlewyrchu'r rhagolygon tybiedig o wahanol gydrannau ar adeg y paratoi, a banc tir mawr presennol Caerdydd (y biblinell tir llwyd mawr a dyraniadau maes glas o'r Cynllun presennol yn cael eu hadeiladu). Caiff y ffigur ei ystyried ym mharagraff 7.3 [RLDP-12-Papur-Technegol-Cefndir-1-Tai-CYMRAEG.pdf](#):

“Gellir dod o hyd i grynodedb o'r cyflenwad tai hyd at 2036, sy'n ymgorffori'r holl gydrannau a drafodir yn y papur hwn yn y tabl isod. Mae rhes 23 yn dangos Cyflenwad Tai Net o 29,429 o gartrefi sy'n cynrychioli gwarged o 5,429 o unedau uwch law darpariaeth y Cynllun sef 26,400 o gartrefi. Wrth ystyried y Gyfradd Adeiladu Flynyddol Ddisgwylidig a ymgorfforwyd i'r Taflwybr Tai, bydd cyfanswm cronus disgwylidig o 27,232 o gartrefi yn cael eu codi dros gyfnod y CDLI hyd at 2036. Unwaith y bydd lwfansau yn cael eu gwneud ar gyfer newidiadau i'r stoc bresennol oherwydd dymchweliadau a newidiadau defnydd fel y nodwyd yn y papur hwn, mae Rhes 24 yn nodi bod gwarged o 2,640 o gartrefi uwch law'r gofyniad annedd yn parhau. Felly, ystyrir nad oes angen dyraniadau ychwanegol, y tu hwnt i'r rhai a gyflwynwyd yn y Cynllun Adneuo, i gyflawni Gofyniad Anheddau'r CDLI.”